Disgrifiad Swydd

Ebrill 2025

Teitl y Swydd	Rheolwr partneriaethau
Yn atebol i	Cyfarwyddwr
Cyflog	£32,000
Oriau Gwaith	37 awr yr wythnos
Cytundeb	Blwyddyn, gyda'r bwriad o ymestyn yn ddibynnol ar gyllid
Lleoliad	Hyblyg

Mae'r swydd hon yn galw am unigolion hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistroli nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â gwaith Mentrau Iaith Cymru. Bydd gofyn gallu teithio i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Amdanom ni

Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) wedi bod yn gweithredu fel corff canolog i gefnogi gwaith y rhwydwaith o Fentrau Iaith lleol ers 1999 trwy amryw o weithgareddau. Ein prif nod yw i ddarparu cyfleoedd i rwydweithio, roi llais i'r rhwydwaith, datblygu prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n caniatáu i'r rhwydwaith weithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, a chynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r Mentrau Iaith ar faterion amrywiol, gan gynnwys polisi mewnol, staffio, ymchwil a chyfleoedd datblygu yn y maes cynllunio iaith.
Rydym yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn chwarae rôl bwysig o fewn y 3ydd sector.

Prif Bwrpas y Swydd

Gweithio fel rhan o dîm bychan sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Iaith ledled Cymru. Darparu cefnogaeth i'r rhwydwaith o Fentrau Iaith a rheoli prosiectau sy'n ychwanegu gwerth i waith y Mentrau wrth iddynt gryfhau'r Gymraeg yn y gymuned. Mae Creu a chynnal partneriaethau yn y maes cynllunio a hyrwyddo addysg yn rhan greiddiol o'r swydd hon.

Prif Ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Arwain ar y gwaith o ehangu prosiect hyrwyddo addysg Gymraeg, *Cymraeg i Bawb,* dros Gymru
- Cydlynu a datblygu cefnogaeth i'r Mentrau: caglu a chyflwyno data, rhannu arfer da, cynorthwyo i sefydlu partneriaethau
- Darparu/Trefnu hyfforddiant i swyddogion y Mentrau
- Rheoli prosiectau cenedlaethol

- Rheoli grantiau cenedlaethol
- Rheoli a threfnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd cenedlaethol
- Cyfathrebu gyda'r Mentrau Iaith
- Cydlynu a datblygu adnoddau i'r Mentrau Iaith ac i'r maes addysg Gymraeg yn fwy eang
- Datblygu prosiectau cenedlaethol
- Darparu elfennau o hyfforddiant neu weithdai yn ôl y galw
- Cydweithio â phartneriaid allweddol yn y maes a datblygu partneriaethau newydd
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chynrychioli buddion MIC a'r Mentrau

Dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol:

- Cefnogi gwaith swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Paratoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith a gyflawnwyd er mwyn adrodd i Bwyllgor Gweithredol MIC a Llywodraeth Cymru
- Mynychu digwyddiadau MIC
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel.
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd
- Profiad o ddatblygu a chynnal partneriaethau
- Y gallu i gydweithio ag eraill, dwyn perswâd ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd
- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Gallu i gasglu data a gwneud gwaith mapio
- Profiad o reoli prosiectau a llunio adroddiadau
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafnidiaeth eich hunan.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig.
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg
- Profiad o reoli cyllid/ cyllidebau
- Profiad o lunio ceisiadau ariannol

Sgiliau / profiad dymunol

- Profiad o weithio yn y maes cyfathrebu/ hyrwyddo/ gwybodaeth
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector a / neu'r sector addysg yng Nghymru
- Profiad o ddatblygu partneriaethau
- Profiad o lunio strategaethau
- Dealltwriaeth o theorïau newid ymddygiad, polisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru.

Diwedd.